## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Remote Meeting on Dydd Llun, 26ain Chwefror, 2024 at 12.30 pm

**YN BRESENNOL:**

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:**

**Cynghorwyr Sir:** Jill Bond, Louise Brown, Rachel Buckler, Paul Pavia and Angela Sandles

### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Geraint Edwards | Solicitor |

### APOLOGIES:

Cynghorydd Sir Martyn Groucutt

1. **<u>Trafodaeth ar sut y bydd y panel recriwtio'n gweithredu</u>**

Yn dilyn cymeradwyo adroddiad gyda'r teitl Aelodaeth o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) a Threfniadau Recriwtio y Dyfodol mewn cyfarfod arbennig o CYS ar 7 Chwefror 2024, cyfarfu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol i drafod trefniadau'r dyfodol ar gyfer recriwtio cynrychiolwyr Ffydd a Chredo. Cytunwyd ar y pwyntiau canlynol:

- Panel Recriwtio i gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un o bob un o'r ddau grŵp gwleidyddol mwyaf o aelodaeth bresennol CYS gyda chaniatâd i ddirprwyon a enwyd. Cytunwyd:

    i) y byddai'r Cyng Angela Sanders yn cynrychioli'r Grŵp Llafur gyda'r Cyng Bond yn ddirprwy.
    ii) y byddai'r Cyng Pavia yn cynrychioli'r Grŵp Ceidwadol gyda'r Cyng Buckler yn ddirprwy.
    iii) cworwm: 3.

- Anfon llythyr at Gynghorau Tref a Chymuned i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb mewn lleoedd gwag ar gyfer cynrychiolwyr Ffydd a Chredo.

    i) Byddai Sharon Randall-Smith yn anfon drafft o hysbyseb i recriwtio Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol at y Cyng Louise Brown i'w addasu a'i gylchredeg i bawb sy'n bresennol heddiw i gadarnhau'r cynnwys. Byddai'r Clerc yn anfon y llythyr.

- Penderfynwyd y gall y ffurflen gais wedi ei llenwi gael ei dilysu gan y sefydliad y mae'r ymgeisydd yn ei gynrychioli drwy e-bost at naill ai Wendy neu Sharon. Caiff y ffurflen a'r e-bost eu hystyried gan y panel.

- Ffurflen gais i gael ei diwygio os yw'r ymgeisydd yn byw yn Sir Fynwy neu'n gweithio yn bennaf yn Sir Fynwy. Clerc i wirio os yw'r ceisiadau a gafwyd eisoes yn cynnwys y pwynt hwn.

- Bydd y panel yn cwrdd unwaith y cafodd y cynghorau tref a chymuned gyfle i gysylltu â sefydliadau ffydd a chredo yn yr ardal leol felly dylai gyfarfod cyn cyfarfod mis Mehefin/ar ôl cyfarfod mis Mawrth.

- Bydd trafodaethau ar Aelodau Cyfredol yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf CYS.

**Y cyfarfod diwedd yn 1.28 pm**